

# Cyfarfod Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd - Microsoft Teams. Crynodeb o'r Cyfarfod

Dydd Llun 18 Ionawr 2021 3pm – 4.30pm

## Yn bresennol:

Cadeirydd y Cynghorydd  
Huw Thomas  
(Cadeirydd, y Cyng. HT),  
Y Cynghorydd Peter  
Bradbury (Y Cyng. PB)  
Ruth Cayford (RC)  
Antwn Owen Hicks (AOH)  
Heather Brown (HB)  
Gavin Allen (GA)  
Guto Brychan (GB)

Gerwyn Evans (GE)  
Peter Francombe (PF)  
Andy Warnock (AW)  
Lucy Squire (LS)  
Helia Phoenix (HP)  
Michael Garvey (MG)  
Liz Hunt (LH)  
Phil Sheeran (PS)  
Tumi Williams (TW)  
Hannah Williams (HW)

Joe Jones (JJ)  
Nick Saunders (NS)  
Adrian Field (AF)  
Jon Day (JD).

## Ymddiheuriadau:

Bethan Elfyn  
Sarah Hemsley-Cole  
Jon Fox

1. Cofnodion - Materion yn Codi	
<p>daraf am</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(Cadeirydd y Cynghorydd HT) <b>Y wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa Gweithwyr Llawrydd</b> - Sicrhawyd dyraniadau ychwanegol i ateb y galw yn y sector. Ar hyn o bryd mae Caerdydd wedi rhoi 780 o Grantiau Llawrydd Creadigol ac mae 20 yn dal i fod yn y broses.</li> <li>Roedd 353 o'r ceisiadau llwyddiannus yn weithwyr llawrydd sy'n gysylltiedig â'r sector cerddoriaeth. Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i Lywodraeth Cymru am gynyddu'r dyraniad i ateb anghenion sector Caerdydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.</b></li> </ul>
2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru, Cymru Greadigol (CG) am y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Adroddiad y Diwydiant Cerddoriaeth Fyw - Gerwyn Evans a Peter Francombe	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Diolchodd Gerwyn Evans i Dîm Datblygu Economaidd Cyngor Caerdydd am gyflwyno Cronfa Lawrydd Caerdydd.</li> <li>Dywedodd (GE) fod hyn yn ddechrau sgwrs gadarnhaol gyda'r Gymuned Lawrydd yng Nghymru. Mae CG mewn trafodaethau gyda Gweinidogion i ofyn am arian ychwanegol i gefnogi'r gymuned greadigol ymhellach.</li> <li>Mae trafodaethau cychwynnol wedi dechrau i edrych ar y potensial o greu CRF2 (Cronfa Adfer Diwylliant). Bydd CG yn diweddarau'r grŵp hwn wrth i'r sgyrsiau fynd rhagdynt.</li> <li>Gan gyfeirio at adroddiad Diwydiant Cerddoriaeth Fyw Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (DGCh) mae CG wedi ymateb i'r 31 o argymhellion a bydd yn cyflwyno ymateb ffurfiol erbyn 28 Ionawr.</li> <li>Cyfarfu tîm CG â swyddogion Cyngor Caerdydd i drafod sut mae Strategaeth Gerddoriaeth Caerdydd yn cyd-fynd â'r adroddiad.</li> <li>Mae CG hefyd wedi ymgynghori ar y cynnig gyda'n</li> </ul>	<p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Bydd y Cadeirydd yn anfon ymateb ffurfiol ar adroddiad DGCh ar y Diwydiant Cerddoriaeth Fyw: <i>Clyw fy Nghân at Gadeirydd Pwyllgor DGCh.</i></b></li> <li><b>Gweithio gyda HDC i ddatblygu Fforwm Diogelwch Cerddoriaeth Fyw, gyda Swyddogion Cyngor Caerdydd,</b></li> </ul>

<p>harbenigwyr yng Ngrŵp Cerddoriaeth Cymru Greadigol, CCC a chydweithwyr eraill yn y sector.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn cyflwyno eu barn mewn ymateb ffurfiol i Gadeirydd Pwyllgor DGCh.</li> <li>• (JJ) Gan fynd i'r afael ag argymhelliad 17-19, mae Heddlu De Cymru yn bwriadu codi materion mewn grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thrwyddedu, digwyddiadau a chanllawiau ac ystyried rhyng-ddibyniaethau a heriau. Byddant yn adolygu diogelwch yn ystod y digwyddiadau cerddoriaeth a'r risgiau a ganfyddir drwy broses dryloyw.</li> <li>• (RC) Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn defnyddio'r dull hwn hefyd drwy ddatblygu'r Fforwm Diogelwch Cerddoriaeth gyda Heddlu De Cymru.</li> <li>• (HP) Gellid rhannu gwaith Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd gydag ALlau yng Nghymru. Gallai fod yn gyfle i edrych ar sut mae'n gweithio, sut y gellir datblygu gwaith i gael effaith fwy.</li> <li>• (GB) Mae gan CG gyfle i ehangu gwaith mapio i gasglu data ar faint o bobl sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru, gan gynnwys rheolwyr cerddoriaeth, hyrwyddwyr a'r holl swyddi sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, ac edrych ar sut y gallwn gryfhau'r sector yn y tair i bum mlynedd nesaf.</li> <li>• (GE) Mae Cymru Greadigol yn cyrraedd eu blwyddyn gyntaf o weithredu. Mae 90% o'r amser hwnnw wedi bod yn gysylltiedig â gwaith adfer wedi Covid. Caiff ein cynllun busnes ei gymeradwyo eleni. Nod ein cynllun gweithredu wrth symud ymlaen yw helpu i ddiogelu'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru ac edrych ar yr hyn y gallwn ei ddatblygu ar y cyd.</li> <li>• (PS) Does dim sôn am Brexit o gwbl yn adroddiad DGCh, os yw'r sector yn goroesi'r pandemig mae'r materion sy'n ymwneud â rhyddid artistiaid i symud yn bryder mawr i'r diwydiant. Does dim sôn chwaith am newid yn yr hinsawdd.</li> <li>• (GE) Mae CG yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar faterion sy'n ymwneud â Brexit.</li> <li>• (AS) Byddai PDC yn hapus i gefnogi'r gwaith hwnnw fel yr ydym wedi'i wneud i gasglu data'r diwydiant sgrin.</li> <li>• (HP) o ran datblygu talent mae angen cyllid ar artistiaid a rheolwyr i gefnogi gyrfaedd, i ddatblygu cynulleidfaoedd rhyngwladol a hyrwyddo Artistiaid Cymru ar lwyfan byd-eang</li> <li>• (GA) Gallai JOMEC gynorthwyo CG ar destun casglu data</li> <li>• (GB) Nid yw'r adroddiad yn ymdrin â'r Strategaeth Ryngwladol. Mae diffyg eglurder o ran ble mae angen i artistiaid fynd i gael cymorth gyda gwaith rhyngwladol. Mae angen i CG, CCC a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ddod at ei gilydd i drafod hyn. Mae dryswch ymhlith artistiaid o ran ble y cânt gymorth</li> </ul>	<p><b>Cynrychiolwyr Lleoliadau CMB a'r tîm Trwyddedu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cydweithio â Chydweithwyr Cymru Greadigol i archwilio meysydd gwaith a rennir.</b></li> </ul>
<p><b>3. Diweddariad y Ddinas – Covid-19</b></p>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• (Cadeirydd, y Cyng. HT) Diweddariad y Cynghorydd Thomas – cyfraddau covid ar eu hisaf ers yr wythnos gyntaf ym mis Rhagfyr ac maent wedi bod yn gostwng ers dros wythnos.</li> <li>• Mae pryderon sylweddol eto ac mae ffordd hir i fynd cyn y gall y llywodraeth ystyried lleddfu'r cyfyngiadau.</li> <li>• Mae derbyniadau i'r ysbyty yn dal i fod ddwywaith symiau mis Mawrth/Ebrill diwethaf.</li> <li>• Mae'r broses cyflwyno'r brechlyn yn cael ei hehangu yn gyson.</li> <li>• Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn ystyried blaengynllunio anghenion y sector mewn perthynas â modelu iechyd y cyhoedd.</li> </ul>	
<p><b>4. Heriau'r Sector</b></p>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r (Cadeirydd, y Cynghorydd HT) mewn cyfarfod pwyllgor Craffu Cyngor Caerdydd ym mis Rhagfyr 2020 ar yr heriau sy'n wynebu'r sector Cerddoriaeth fyw. Cyfrannodd Guto Evans a Nick Saunders at y sesiwn honno ar ran Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd. Mynegodd cydweithwyr fod angen cynllun ar y sector i gefnogi adferiad. Bydd y Cadeirydd yn anfon llythyr at y Dirprwy Weinidog yn crybwyll hyn.</li> <li>• Dywedodd (GB) na fyddai'r lefelau rhybudd presennol yn ei gwneud yn bosibl i leoliadau ar lawr gwlad ailagor, yn enwedig gyda'r pellter cymdeithasol o 2 fetr a'r cyrffiw 10pm. Ni chaiff clybiau nos ailagor yn lefel rhybudd 1. Ar hyn o bryd nid yw'r lefelau'n mynd yn ddigon pell i gynllunio ar gyfer adfer. Mae angen ystyried effaith amrywiolion newydd hefyd.</li> <li>• (HB) Rydym yn ystwytho amserlen y digwyddiad prawf yn rheolaidd. Mae angen i ni wybod beth sy'n digwydd y tu hwnt i lefel 1. Mae angen i ni wybod hefyd beth sy'n digwydd ar gyfer brechu pobl dan 50 oed.</li> <li>• (PF) Mae'r sefyllfa'n newidiol ac yn anodd ei rhagweld. Rydym yn deall faint mae pobl yn torri eu boliau eisiau mwynhau digwyddiadau cerddoriaeth fyw, rydym yn deall bod pawb eisiau cynllun ar gyfer yr ailagor, ond cyfrifoldeb arnom i wrando ar y gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch y sefyllfa ddifrifol yr ydym ynddi.</li> <li>• (NS) Deallwn fod amrywiolion newydd yn cymhlethu rhagfynegiadau a senarios modelu. Mae Sasha Lord, Manceinion, wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae digwyddiadau prawf eisoes wedi eu cynnal yn Lloegr. Mae'r dystiolaeth hon eisoes ar gael i ni ddysgu ganddi yng Nghymru. Mae angen mwy o feddwl ymlaen a mwy o gydweithio ar dystiolaeth y digwyddiadau prawf.</li> <li>• (TW) O edrych ar y dybiaeth bod tua 10-15% o'r boblogaeth nad ydynt eisiau cael y brechiad, mae angen i ni ystyried a fyddwn yn wynebu'r un problemau yn yr hydref.</li> <li>• (HP) Mae angen inni edrych ar beth cyfrif fel perfformiad byw. Ceisio cefnogi agor gweithgarwch yn raddol a</li> </ul>	<p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bydd y Cyng. Huw Thomas yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i drafod argymhellion Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant Cyngor Caerdydd ar yr heriau sydd yn y Diwydiant Cerddoriaeth Fyw.</b></li> <li>• <b>Bydd Cyngor Caerdydd yn gwneud penderfyniad ar ddyddiad lansio Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn y gwanwyn. Y penderfyniad fydd edrych ar gynllunio at 2021-neu 2022</b></li> <li>• <b>Edrych ar faterion yn ymwneud â chyfleoedd gwaith posibl i gerddorion. Edrych ar gyfleoedd DJ ar lefel sŵn y cytunir arni gyda'r</b></li> </ul>

<p>chyfleoedd gwaith. A allem ni gefnogi DJs byw ar lefel sŵn penodedig? Rhaid inni edrych ar pam y caniateir rhestri chwarae, ond nid DJs byw?</p>	<p><b>Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir</b></p>
<p><b>5. Diweddariad Cynllunio -Simon Gilbert- Rheolwr Cynllunio Cyngor Caerdydd</b></p>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• (Cadeirydd, y Cyng. HT) Gan gyfeirio at lythyr ymddiswyddo Daniel Minty o Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd, mae'n bwysig pwysleisio bod y Bwrdd wedi cytuno yn y cyfarfod diwethaf i gyflwyno gwrthwynebiad yn erbyn cais cynllunio datblygiad a allai effeithio ar leoliad Flute and Tankard. Arweiniodd y gwrthwynebiad hwn gan y Bwrdd at osod amodau sylweddol ar y datblygiad hwnnw er mwyn diogelu'r lleoliad hwnnw orau.</li> <li>• Amlinellodd (SG) fanylion achos Flute and Tankard.</li> <li>• Cyflwynwyd cais cynllunio i drosi lloriau uchaf hen fanc Barclay's ym Mhlas Windsor yn ddefnydd preswyl yn ystod haf y llynedd.</li> <li>• Ysgrifennodd swyddogion y Cyngor a Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i'r adran Gynllunio yn nodi pryderon a gwrthwynebiadau sylweddol yn erbyn cais, ar y sail y gallai'r eiddo preswyl hwn, a oedd mor agos at leoliad, arwain at gwynion, a allai yn y pen draw, arwain at osod pwysau ar y lleoliad hwnnw.</li> <li>• Nid oedd y swyddog cynllunio na chydweithwyr yn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn fodlon ar ansawdd y wybodaeth yr oedd yr ymgeisydd wedi'i chyflwyno o ran lliniaru sain yn yr eiddo.</li> <li>• Gofynnwyd i'r datblygwyr gynnal arolwg sŵn. Cawsom asesiad rhagarweiniol i edrych arno ac roeddem yn weddol fodlon ar hwnnw, ond gorfododd gwrthwynebiadau Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ni i wthio'n galetach ac ychwanegu mwy o gyfyngiadau at y cais.</li> <li>• Gosodom lefel gaeth o amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr, cyn y gall unrhyw un fyw yn un o'r fflatiau, ein bodloni drwy asesiad mwy diweddar a drwy sicrhau eu bod yn cydweithio â F&amp;T a lleoliadau eraill i bennu'r lefelau sŵn, na fyddai angen i'r preswylwyr gwyno.</li> <li>• Hyd nes y bo hyn yn ei le, ni all neb feddiannu'r fflatiau hynny. Dyma'r rheolaethau llymaf y gallwn eu gosod ar yr eiddo hwnnw a chytunodd y datblygwr arnynt.</li> <li>• Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol a gychwynwyd gan Fwrdd Cerdd Caerdydd a byddwn yn mabwysiadu'r broses hon wrth symud ymlaen.</li> <li>• Mae'r adran Gynllunio yn awyddus i weithio gyda chydweithwyr ar Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd a chydweithwyr yn y sector preifat, tiffeddianwyr, busnesau, yn ogystal â chydweithiwr arall yn y cyngor i lunio fframwaith polisi llawer tynnach yn y dyfodol, sy'n hyrwyddo economi'r nos yn ogystal ag economi'r dydd.</li> <li>• Mae'r adran gynllunio yn cynnig gweithio gyda Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ar y cynllun datblygu newydd, felly mae gennym fachau polisi cryfach a gwaith mwy pwrpasol o ran sut rydym yn symud ymlaen gyda chanllawiau ategol i sicrhau bod mewn-fuddsoddwyr, busnesau presennol a'r</li> </ul>	<p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn gweithio gydag adran Gynllunio Cyngor Caerdydd ar ddatblygu polisi sy'n gysylltiedig ag Economi'r Nos a Sector Cerddoriaeth Caerdydd.</b></li> <li>• <b>Ymgynghori â Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd, i ddatblygu bachau polisi cryfach a gwaith pwrpasol sy'n ymwneud â'r Sector Cerddoriaeth o ran sut rydym yn symud ymlaen gyda chanllawiau atodol</b></li> <li>• <b>Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn ymgynghorai a dargedir er mwyn llywio amcanion y CDLI.</b></li> </ul>

<p>gymuned yn creu'r canol tref gorau yng Nghymru a thu hwnt.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd yr holl geisiadau cynllunio datblygu nawr yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ar gyfer ymgynghoriad. Byddwn yn rhannu'r rhain gyda'r Bwrdd yn wythnosol.</li> <li>• (AW) Mae'n gadarnhaol iawn creu'r diwylliant hwn lle mae'r NTE wedi'i gynnwys mewn datblygiadau, a gweithio gyda datblygwyr mewn ffordd gadarnhaol.</li> </ul>	
<p><b>6. Arena Glanfa'r Iwerydd - Chris Barnett Cyngor Caerdydd, Adfywio a Graeme Walters COO o Live Nation ac sy'n rhedeg Grŵp Cerddoriaeth yr Academi.</b></p>	
<p>Chris Barnett – yn rhoi cyflwyniad ar y penderfyniadau ar Arena Glanfa'r Iwerydd a'r Uwchgynllun.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• (CB) Ym mis Tachwedd, penderfynodd Cyngor Caerdydd ddewis consortiwm dan arweiniad Live Nation i fod yn weithredwr ar gyfer yr arena newydd. Robertson fydd y datblygwr ac OVG fydd eu partner masnachol.</li> <li>• Rydym yn datblygu'r achos busnes llawn gyda LN er mwyn ei gyflwyno yn ôl i'r Cabinet ym mis Mai.</li> <li>• Ym mis Rhagfyr, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r Uwchgynllun ar gyfer datblygiad Glanfa'r Iwerydd ac rydym yn datblygu'r achos busnes a'r ymgynghoriad hwnnw.</li> <li>• Os aiff popeth yn ôl y bwriad, bydd consortiwm Live Nation yn cyflwyno cais cynllunio hybrid i Gyngor Caerdydd erbyn mis Gorffennaf eleni, gyda'r nod o gael caniatâd cynllunio erbyn tymor yr hydref 2021 a gan obeithio bod ar y safle tua diwedd 2021.</li> <li>• Datblygu prosiect adeiladu 25/26 Mis i'w gwblhau erbyn gwanwyn 2024.</li> </ul> <p>Esboniwyd manylion yr uwchgynllun gyda chyflwyniad wedi'i animeiddio, yn amodol ar benderfyniadau yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• (GW) Rydym wedi llunio consortiwm ar gyfer y prosiect hwn. Live Nation yw'r cynigydd arweiniol. Hwyl yw'r hyrwyddwr/gweithredwyr cyngherddau mwyaf yn y byd.</li> <li>• Grŵp Robertson yw'r partner datblygu, yn fwyaf diweddar cwblhaont ddatblygiad TECA yn Aberdeen, sy'n cynnwys arena fyw PNJ.</li> <li>• Mae HOK ynghlwm fel ein penseiri ac mae Arup yn un o'r partneriaid peirianeg.</li> <li>• Un o'r nodau'r busnes yw cefnogi datblygiad cynnwys ar gyfer y lleoliadau hyn. Rydym yn gweithio gyda 4500 o artistiaid y mae gennym berthynas reoli a theithio â nhw ar hyn o bryd.</li> <li>• Mae Live Nation yn cydnabod y dreftadaeth gerddorol gyfoethog sydd yng Nghaerdydd o'r lleoliadau bach dros dro i stadiwm Principality. Yr arenâu newydd fydd y rhan</li> </ul>	<p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn ymgysylltu ac yn cefnogi datblygiad Arena Ryngwladol newydd Glanfa'r Iwerydd</b></li> <li>• <b>Bydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn cefnogi ymgynghoriad ar yr arena newydd ac ymgysylltu â'r sector cerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghaerdydd.</b></li> </ul>

goll o'r jig-so a mynd â phethau i'r lefel nesaf yn y ddinas.

- Un o'r prif sbardunau dylunio ar gyfer yr arena newydd yw'r cyfleusterau 'Bowlio Unigryw' a'r cyfleusterau gweledol gyffrous, yn barod ar gyfer y cynnyrch newydd y mae angen i ni ddod ag ef i Gaerdydd.
- Mae angen i'r llinellau golwg fod yn wych, mae gan yr arena hon dechnoleg ryngweithiol, flaengar, acwsteg wych, ac mae hi'n hynod gyfforddus a chroesawgar.
- Bydd Live Nation yn cynnal ymgynghoriad â'r holl brif randdeiliaid yn yr ardal.
- Bydd yr adborth hwnnw'n llywio'r broses ddylunio wrth i ni symud ymlaen tuag at gynllunio yn ystod misoedd Gorffennaf/Awst.
- Yn bennaf mae'n lleoliad cerddoriaeth ac adloniant.
- Bydd elfen hefyd o gynadleddau ac arddangosfeydd a gwledda.
- Dylai'r gwaith adeiladu greu 2000+ o swyddi ar gyfer yr ardal. Rydym yn bwriadu creu llawer o gyfleoedd gwaith ar gyfer yr ardal a hyfforddiant i bobl ifanc. Bwriadwn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r economi leol.
- Ar ôl adeiladu'r arena, bydd 500 o swyddi gweithredol a byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ymgysylltu â'r gymuned gerddoriaeth.
- Byddwn yn archwilio creu rhywfaint o le ymarfer, rhoi rhywfaint o offer i'r ysgolion ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth.
- Byddwn yn helpu i hwyluso Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd
- Byddwn yn ymgysylltu â phobl leol i wneud iddynt deimlo mai eu harena nhw ydy hi a rhywbeth y maen nhw'n falch ohono.
- Ar ôl 25 mlynedd o fasnachu yng Nghaerdydd rydym eisiau mynd â phethau i'r lefel nesaf i gefnogi dyhead Caerdydd i ddod yn ddinas gerdd.
- Holodd (NS) ble bydd hyn yn gadael gigs maint canolig yn y ddinas
- Dywedodd (GW) bod yr arena'n hyblyg o ran maint, mae'r adeilad yn hyblyg: gall ddarparu cynnyrch o leoliad ar gyfer 3500 o bobl hyd at gapasiti o 15000.
- Cydnabu (MG) y cyfle gwych hwn i roi Caerdydd yn eu cwmpas gerddorol.
- (CB) Bydd Cyngor Caerdydd yn edrych ar fuddion i'r gymuned a'r sector cerddoriaeth drwy gytundebau contract. Edrych ar sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd y datblygiad hwn i'r ddinas a'n sector cerddoriaeth ar y cyd.
- (GW) rydym yn adnabod y lleoliad, rydym yn adnabod pobl Caerdydd, mae wedi bod yn gartref i Live Nation ers 25 mlynedd. Felly mae mynd â phethau i'r lefel nesaf yn y 4/5 mlynedd nesaf yn hynod gyffrous.
- Roedd (GB) yn falch o weld bod y lleoliad yn hyblyg o ran maint.
- (Cadeirydd, y Cyng. HT) credwn fod yr arena yn hanfodol i gyflwyno'r achos dros y seilwaith trafniadaeth.

## 7. Unrhyw Fater Arall (dim)

